# SL(5)727 - Cod Ymarfer Treuliau Etholiad Ymgeiswyr (Etholiadau'r Senedd) 2021

## Cefndir a Diben

Paratowyd y Cod hwn gan y Comisiwn Etholiadol i roi canllawiau ar yr hyn sy'n dod o fewn Rhan 1 neu Ran 2 o Atodlen 7 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 ('Gorchymyn 2007') a'r hyn nad yw'n dod o fewn iddynt.

Mae'r Rhannau hynny'n berthnasol i'r diffiniad o 'dreuliau etholiad' ac yn enwedig felly i ba dreuliau y mae'n ofynnol i ymgeisydd roi gwybod amdanynt. Mae Rhan 1 o Atodlen 7 yn rhestru'r materion y mae unrhyw dreuliau at ddibenion ethol yr ymgeisydd yn cyfrif mewn perthynas â nhw fel 'treuliau etholiad'. Mae Rhan 2 yn rhestru'r eithriadau.

Mae'r Cod hefyd yn rhoi canllawiau ar yr achosion neu'r amgylchiadau lle mae'n rhaid barnu, neu lle mae'n rhaid peidio â barnu, bod treuliau wedi'u hachosi 'at ddibenion ethol ymgeisydd', fel y cyfeirir atynt yn erthygl 63 o Orchymyn 2007.

## Gweithdrefn

Drafft negyddol. Oni bai bod y Senedd yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r drafft o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'w osod, caiff y Cod Ymarfer ei ddwyn i rym drwy orchymyn diwrnod penodedig a wneir gan Weinidogion Cymru, ac a gyhoeddir gan y Comisiwn Etholiadol.

## Gwaith craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

Nodwyd dau bwynt i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.7 mewn perthynas â'r cod hwn.

1. Mae paragraffau 1.18 i 1.20 o'r Cod yn nodi sut y cyfrifir gwariant tybiannol at ddibenion treuliau etholiad. Ar ddiwedd paragraff 1.20 nodir, "Mae'r rheolau ar roddion yn gymwys i'r rhodd gysylltiedig hefyd." Ni chyfeirir at beth yw'r rheolau ar roddion na ble y gellir dod o hyd iddynt. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod rheolau ar roddion y tu allan i gwmpas y Cod, ond er mwyn cynorthwyo'r rhai sy'n defnyddio'r Cod i gydymffurfio â'u holl rwymedigaethau dylid cyfeirio at ble y gellir dod o hyd i'r rheolau ar roddion.

2. Mae'r Cod yn nodi'r gofynion o ran datgan treuliau. Mae paragraff 1.23 yn nodi, o dan Erthygl 54(3) o Orchymyn 2007, y byddai ymgeisydd ar restr ranbarthol yn euog o arfer llwgr os yw'n gwneud datganiad ffug yn fwriadol. Fodd bynnag, nid yw'r Cod yn cyfeirio o gwbl at Erthygl 53(5) o Orchymyn 2007 sy'n darparu, yn yr un modd, y byddai ymgeisydd etholaethol neu ei asiant yn euog o arfer llwgr os yw'n gwneud

datganiad ffug yn fwriadol. Mae'r Pwyllgor yn nodi ei bod yn hanfodol sicrhau dull gweithredu cyson a darparu'r holl wybodaeth berthnasol yng nghyd-destun Codau sydd â grym statudol fel y Cod hwn, ac felly byddai'n croesawu esboniad gan Lywodraeth Cymru ynghylch pam na chyfeirir at Erthygl 53(5).

## Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor y Cod Ymarfer yn ei gyfarfod ar 1 Chwefror 2021 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.